# Hysbysiad o Etholiad

## Cynhelir etholiad ar gyfer un Cynghorydd Tref ar gyfer Cyngor Tref Bae Colwyn (ward Dinarth)
## Dyddiad yr Etholiad: Dydd Iau, 30 November 2023

### Cael papurau enwebu

1. Gellir cael papurau enwebu gan y Swyddog Canlyniadau un ai ym Modlondeb, Conwy, LL32 8DU neu'n electronig drwy etholiadol@conwy.gov.uk.

### Cyflwyno papurau enwebu

2. Rhaid cyflwyno'r papurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau ddim hwyrach na 4pm ddydd Gwener, 3 Tachwedd 2023.
3. Gellir danfon papurau enwebu yn bersonol i'r Swyddog Canlyniadau ym Modlondeb, Conwy, LL32 8DU rhwng 10am a 4pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn (ac eithrio gwyliau banc) neu'n electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad cyflwyno electronig isod.
4. Os bydd etholiad, cynhelir y bleidlais **dydd Iau, 30 Tachwedd 2023**.

### Cofrestru Etholwyr

5. Rhaid i geisiadau i ychwanegu enw at y Gofrestr Etholwyr er mwyn pleidleisio yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU erbyn **dydd Mawrth, 14 Tachwedd 2023**. Gellir cyflwyno ceisiadau ar-lein yn https://www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio.

### Pleidlais bost a thrwy ddirprwy

6. Dylai etholwyr a'u dirprwyon nodi bod yn rhaid i bob cais am bleidlais bost newydd, neu bob cais i ddiwygio neu ganslo pleidlais bost bresennol gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU erbyn **5pm, ddydd Mercher, 15 Tachwedd 2023.** Mae hyn yn cynnwys etholwyr neu eu dirprwyon sy'n dymuno diwygio eu trefniadau presennol yn barhaol.
7. Rhaid i bob cais am bleidlais drwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU erbyn **5pm, ddydd Mercher, 22 Tachwedd 2023.**
8. Rhaid i geisiadau i bleidleisio trwy ddirprwy brys yn yr etholiad hwn ar sail anallu corfforol neu am resymau gwaith/gwasanaeth gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn **5pm, ddydd Iau, 30 Tachwedd 2023**. Rhaid i'r anallu corfforol fod wedi digwydd ar ôl 5pm **ddydd Mercher, 22 Tachwedd 2023**. I ymgeisio ar sail gwaith/gwasanaeth neu coronafeirws, mae'n rhaid i'r unigolyn fod wedi dod i wybod na allant fynd i'r orsaf bleidleisio eu hunain ar ôl **5pm ddydd Mercher, 22 Tachwedd 2023**.

### Datganiad cyflwyno'n electronig

9. Gellir cyflwyno papurau enwebu yn electronig yn unol â threfniadau a nodir yn y datganiad hwn -
   - **Gwiriadau anffurfiol** - dros e-bost at etholiadol@conwy.gov.uk. Rhowch 'GWIRIAD ANFFURFIOL –DINARTH' yn nhestun y neges
   - **Cyflwyno enwebiadau** - ewch i www.conwy.gov.uk/enwebiadau a chyflwynwch y papur enwebu drwy'r porth ar-lein

   Sylwer:

   - Cyfrifoldeb yr ymgeiswyr yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau yn cael y ffurflenni enwebu yn y ffordd gywir erbyn y dyddiadau cau.
   - Nid yw derbynneb electronig bod y neges wedi ei ddarllen gan y Swyddog Canlyniadau yn gadarnhad bod yr enwebiad yn ddilys. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn anfon hysbysiad i roi gwybod i ymgeiswyr am ei benderfyniad a yw eu henwebiad yn ddilys neu beidio.
   - Os bydd arnoch angen cymorth i gyflwyno eich enwebiadau'n electronig, cysylltwch ag etholiadol@conwy.gov.uk.



**Rhun ap Gareth, Swyddog Canlyniadau**

**Dyddiedig: Dydd Iau, 26 Hydref 2023**
**Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU**
**Rhif ffôn: 01492 576052**